



# Deddf Gwarcheidiaeth (Pobl sydd ar goll) 2017

## Gweithredu'r Ddeddf

### Crynodeb Gweithredol

Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i weithredu Deddf Gwarcheidiaeth (Pobl sydd ar goll) 2017 ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r papur ymgynghorol hwn yn ceisio barn y rhai sydd a wnelont â maes y Ddeddf ar gynigion y Weinyddiaeth Cyfiawnder i wireddu'r amcan hwn.

Creodd y Ddeddf statws cyfreithiol newydd i warchod eiddo a materion ariannol rhywun sydd ar goll. Penodir gwarcheidwaid drwy orchymyn llys i fod yn asiantiaid y bobl sydd ar goll y maent wedi eu hawdurdodi i reoli eu heiddo a'u materion ariannol. Bydd y gorchymyn sy'n penodi gwarcheidwad yn egluro telerau ei awdurdod a hyd a lled yr eiddo a'r materion ariannol sy'n berthnasol i'r penodiad. Er mwyn gweithredu'r Ddeddf bydd yn rhaid creu rheolau llys, rheoliadau a chod ymarfer.

Bydd rhai nodweddion arbennig yn perthyn i achosion llys sy'n ymwneud â gwarcheidiaeth, ond bwriad yr adran yw ceisio defnyddio gweithdrefnau llys safonol hyd y gellir fel na sefydlir gweithdrefnau newydd ond pan fo hynny'n angenrheidiol: megis, er enghraifft, mewn perthynas â chynnwys ceisiadau i benodi gwarcheidwad, rhoi gwybod am achos i rai sydd a wnelont ag ef, a'r dystiolaeth i'w chyflwyno.

Naill ai'r Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod fydd y llys i'w ddefnyddio ar gyfer ceisiadau'n ymwneud â gwarcheidiaeth. Yr Arglwydd Ganghellor, yn dilyn ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus, fydd yn pennu pa lys ac nid yw eto wedi gwneud hynny. Mae'r ymgynghori hwnnw'n mynd rhagddo.

Unwaith y gwneir penodiad, bydd y llys yn anfon copi o'r gorchymyn sy'n gwneud y penodiad at y Gwarcheidwad Cyhoeddus, a fydd yn cofrestru'r gorchymyn ac yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o oruchwylio'r gwarcheidwad. Bydd rôl y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn y cyswllt hwn yn debyg i'w rôl mewn perthynas â goruchwylio dirprwyon a benodwyd i weithredu ar ran pobl sy'n amddifad o alluedd meddyliol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae dirprwyon yn rheoli ac yn trafod eiddo a materion ariannol unigolion sy'n amddifad o alluedd meddyliol ac na ydynt bellach yn gallu gwneud hynny drostynt eu hunain.

Er bod gwahaniaeth sylweddol rhwng rôl gwarcheidwaid a rôl dirprwyon, mae cryn debygrwydd rhyngddynt yn ogystal. Bwriad yr adran mewn perthynas â goruchwyliaeth y Gwarcheidwad Cyhoeddus dros warcheidwaid yw dilyn model y rheoliadau ynglŷn â dirprwyaeth a gweithdrefnau ac arferion cysylltiedig y Gwarcheidwad Cyhoeddus, hyd y gellir: yn cynnwys, er enghraifft, mynnu bod gwarcheidwaid yn darparu bond ariannol fel sicrwydd y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau'n briodol pan fo'r llys yn gofyn am hynny; mynnu bod gwarcheidwaid yn adrodd i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus pan ofynnir iddynt wneud hynny; a, galluogi'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i ymchwilio i gamymddygiad honedig ar ran gwarcheidwaid.

Gan hynny bydd y system warcheidiaeth yn gofyn am geisiadau i'r llys a goruchwylio'r gwarcheidwaid gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Gan y codir ffi fel arfer am geisiadau i'r llys a goruchwyliaeth gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus mewn cyd-destunau eraill, bwriad yr adran yw y bydd ffioedd yn daladwy i'r llys a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ill dau mewn perthynas ag achosion gwarcheidiaeth ac y bydd y ffioedd yn destun consesiynau tebyg i'r rhai sy'n berthnasol i'r ffioedd cyfatebol ar gyfer pobl y mae eu modd ariannol yn gyfyngedig.

Ynghyd â pheri bod angen gwneud rheolau llys a rheoliadau, mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod yr Arglwydd Ganghellor yn cyhoeddi cod ymarfer i ddarparu cyfarwyddyd i warcheidwaid a cheiswyr. Rhagwelir y bydd y cod yn debyg i'r cod a gyhoeddwyd mewn perthynas â Deddf Galluedd Meddyliol 2005, y mae rhan ohono'n rhoi cyfarwyddyd i ddirprwyon a benodwyd gan y llys, a byddwn yn modelu'r cod gwarcheidiaeth ar y cod hwnnw.

Mae'r papur ymgynghori'n ceisio barn ar y cynigion ar gyfer cynnwys y rheolau llys, y cyfarwyddiadau ymarfer, y rheoliadau a'r cod ymarfer a ddisgrifir yn y papur.